**NODYN ESBONIADOL**

[Nid yw hwn yn rhan o’r cynnig]

Yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, mae’r Cynnig yn gofyn i’r Cynulliad i gymeradwyo newidiadau i’r cyllidebau ar draws y Prif Grwpiau Gwariant (PGG) ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Mae’r Cynnig hwn yn cynyddu £11.752 miliwn ar gyllideb y Cynulliad. Mae’r cynnydd hwn yn deillio o (1) Datganiad a wnaeth y Canghellor cyn y Gyllideb; (2) defnyddio’r ddarpariaeth i gario ymlaen; (3) trosglwyddiadau net i Adrannau’r Llywodraeth ac oddi wrthynt; (4) dyraniad oddi wrth Gronfa Moderneiddio’r Llywodraeth; a (5) cymorth ychwanegol ar gyfer diogelu rhag llifogydd.

Mae’r trosglwyddiadau yn cynnwys adnoddau i helpu awdurdodau lleol i ymdopi gyda’r tywydd anarferol o wael a gafwyd ac i alluogi Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru i hybu Cymru yn ystod y digwyddiadau pêl-droed mawr sydd ar y gorwel. Mae’r trosglwyddiadau eraill yn rhai arferol. Enghraifft o hyn yw trosglwyddo £490,000 o Brif Grp Gwariant Addysg a Hyfforddiant i Brif Grp Gwariant Estyn i ad-dalu’r gost o arolygu cyrsiau Addysg Bellach.

Os caiff y Cynnig ei gytuno, bydd effaith y newidiadau i’r Prif Grwpiau Gwariant, yr Is-Grwpiau Gwariant a’r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn cael eu cynnwys yn y System Gwybodaeth Reoli erbyn diwedd y dydd, dydd Gwener 23 Mawrth 2001.